



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Penderyn
Pontprenllwyd
Penderyn
Aberdâr
CF44 9JW**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn, ym mhentref Pontprenllwyd, nid nepell o Hirwaun ar y brif ffordd i Aberhonddu. Mae wedi'i lleoli mewn adeilad ysgol newydd, a agorwyd yn 2007 ar safle'r hen ysgol.

Daw disgyblion o gefndiroedd cymdeithasol amrywiol nad ystyrir yn ffyniannus na than anfantais yn economaidd.

Mae 219 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 mlwydd oed ar gofrestr yr ysgol. Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn ddwy ffrwd iaith. Mae rhieni yn dewis i'w plant astudio'r rhan fwyaf o'u gwersi naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol i 146, tra bod niferoedd wedi gostwng yn sylweddol i 73 yn y ffrwd Saesneg. Mae wyth dosbarth yn yr ysgol, a'r Gymraeg yw prif iaith yr addysgu mewn pump o'r rhain. Mae gan bob dosbarth ddisgyblion o fwy nag un grŵp oedran, heblaw am y dosbarth meithrin cyfrwng Gymraeg.

Mae tua 13% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 1% o ddisgyblion. Mae gan ryw 25% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, o'i gymharu â 15% yn 2006 pan arolygwyd yr ysgol yn flaenorol. Mae hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 20%. Dynodwyd bod gan 54 o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae uwch arweinyddiaeth yr ysgol wedi newid ers yr arolygiad diwethaf. Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Penderyn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,222 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £6,499 a'r isafswm yw £2,788. Mae Ysgol Gynradd Penderyn yn safle 71 o'r 114 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- bod disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, yn gwrando'n astud yn y dosbarth ac yn awyddus i lwyddo;
- bod ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn; a
- bod disgyblion iau yn mwynhau ac yn elwa ar wersi ysgogol ac amrywiol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Fodd bynnag:

- mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd anghyson, ac nid yw eu safonau yn 11 mlwydd oed yn ddigon da mewn ysgrifennu, rhifedd, Cymraeg ail iaith a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu; ac
- mae disgyblion mwy abl yn cael gwaith sy'n rhy hawdd iddynt.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- nad yw perfformiad disgyblion ym mwyafrif asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol yn saith ac 11 mlwydd oed dros y pum mlynedd diwethaf bob amser yn cymharu'n dda â pherfformiad disgyblion o ysgolion tebyg yng Nghymru;
- nad yw gwelliannau dros y 18 mis diwethaf ym mywyd a gwaith yr ysgol wedi arwain at ddeilliannau cryn dipyn yn well i ddisgyblion eto;
- nad yw athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn darparu gwaith sy'n gweddu'n ddigon agos i'r ystodau oedran a gallu eang mewn dosbarthiadau;
- nad yw gwybodaeth asesu yn cael ei defnyddio'n ddigon da bob amser, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, er mwyn i ddisgyblion wybod sut i wella eu gwaith ac i athrawon olrhain cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol;
- nad yw'r corff llywodraethol yn defnyddio canlyniadau asesiadau athrawon yn ddigon effeithiol i herio'r ysgol i wella perfformiad disgyblion; ac
- nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran gwella presenoldeb disgyblion, a oedd yn argymhelliad yn yr adroddiad arolygu blaenorol.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

- A1 codi safonau yng nghyfnod allweddol 2 mewn ysgrifennu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd;
- A2 gwella datblygiad Cymraeg ail iaith disgyblion;
- A3 gwella cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 i ddarparu gwaith sy'n fwy addas ar gyfer oedran a gallu disgyblion, a chaniatáu dilyniant gwell yn eu datblygiad medrau;
- A4 gwneud defnydd gwell o wybodaeth asesu er mwyn i ddisgyblion wybod sut i wella eu gwaith, a galluogi athrawon i olrhain cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol;
- A5 gwella defnydd y corff llywodraethol o ganlyniadau asesiadau athrawon i herio'r ysgol i wella perfformiad disgyblion; a
- A6 gwella presenoldeb disgyblion.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, yn aml yn dechrau o fan cychwyn isel, yn enwedig mewn iaith. Maent yn dangos hyder cynyddol wrth siarad ag oedolion ac â'i gilydd. Mae gweithgareddau ysgrifennu ac arlunio cynnar yn datblygu'n briodol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod rhifau i fyny i bump ac yn cyfateb siapiau syml a lliwiau. Maent yn frwdfrydig wrth ddysgu am y byd o'u cwmpas ac maent yn elwa ar chwarae a dysgu gweithredol mewn ystafelloedd dosbarth ac yn yr awyr agored. Mae medrau siarad a gwrando disgyblion yn datblygu'n dda mewn Cymraeg a Saesneg yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn ym Mlwyddyn 2 yn dangos cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu a rhifedd. Maent yn ysgrifennu storïau i ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd defnyddio brawddegau ac atalnodi cywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn galw i gof eu dysgu blaenorol yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando'n dda, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn rhugl, yn darllen yn hyderus ac yn gwneud cynnydd da yn y medrau hyn. Mewn cyferbyniad, mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddisgyblion yn fyr gyda chynnydd cyfyngedig wrth ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn yr un modd, cyfyngedig yw defnydd disgyblion o'u medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi a chyfoethogi eu gwaith mewn ystod o gyd-destunau. Nid yw medrau gweithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am agweddau ar eu dysgu eu hunain wedi'u datblygu'n dda.

Mae llawer o'r disgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol ar gyfer darllen ac ysgrifennu ac mewn rhifedd yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u man cychwyn. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r disgyblion mwy abl yn cyrraedd eu llawn botensial yn eu darllen, eu hysgrifennu nac mewn gwaith mathemategol. Nid yw rhai disgyblion llai abl yn gallu darllen eu gwaith eu hunain gan fod eu llawysgrifen yn wael.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn anfodddhaol. Mae'r cynnydd a wneir o un flwyddyn i'r llall mewn siarad, darllen ac ysgrifennu, yn annigonol.

Mae perfformiad disgyblion yn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 wedi amrywio'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion yng Nghymru y mae eu canran prydau ysgol am ddim yn debyg, mae perfformiad disgyblion yn saith ac 11 mlwydd oed wedi golygu bod yr ysgol rhwng y 25% gorau a'r 25% isaf mewn perthynas â phynciau craidd Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn rhy anghyson, ac ar y cyfan nid yw'n ddigon da o'i gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg yng Nghymru.

Lles: Da

Mae disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn mwynhau eu gwaith. Mae arweinwyr cylch chwarae yn cymryd cyfrifoldeb am ofalu am ddisgyblion eraill amser egwyl ac amser cinio. Mae disgyblion yn dangos gofal a phryder am les ei gilydd. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o beth y mae'n ei olygu i fod yn heini ac iach ac mae ganddynt fedrau cymdeithasol da. Maent i gyd yn deall bod bwlio yn annerbyniol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon.

Mae disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor ysgol a'r eco-gyngor yn weithgar wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ailgylchu, arbed ynni lle bo modd a threfnu digwyddiadau codi arian at sawl elusen. Trwy wasanaethau ysgol a digwyddiadau eraill, mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r eco-gyngor yn cyfleu pwysigrwydd cyfrifoldebau o'r fath wrth ddisgyblion eraill. Mae hyn yn helpu pob disgybl i ddechrau deall y materion sy'n effeithio ar eu hardal a'r byd ehangach.

Mae lefelau presenoldeb yn yr ysgol yn ddigonol. Mae presenoldeb ysgol gyfan ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf wedi golygu bod yr ysgol ymhlith y 25% isaf a'r 50% is o ysgolion tebyg yn y grŵp prydau ysgol am ddim. Mae absenoldeb anawdurdodedig wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan a'r awdurdod lleol am y pedair blynedd diwethaf.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol gwricwlwm priodol sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion a gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau am eu dysgu. Maent yn dewis ystod o weithgareddau priodol sy'n datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth ar draws pob maes dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r agweddau hyn wedi'u datblygu cystal, ac nid yw disgyblion yn adeiladu'n ddigonol ar eu medrau o un flwyddyn i'r llall. Mae disgyblion mwy abl yn aml yn cael gwaith sy'n rhy hawdd iddynt, yn enwedig mewn ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth. Ni wneir digon o ddefnydd o fedrau cyfrifiadurol a medrau technoleg eraill disgyblion ym mhob dosbarth i atgyfnerthu'r dysgu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau dysgu ehangach fel datrys problemau, ymholi a gwaith ymchwiliol.

Ar draws yr ysgol, mae'r gweithgareddau i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, eu hanes a'u traddodiadau eu hunain yn dda. Mae digwyddiadau fel eisteddfod yr ysgol ac Eisteddfod yr Urdd yn ffyrdd o hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion am Gymru a'r iaith Gymraeg ymhellach. Ychydig iawn o gyfleoedd a roddir i ddisgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg wella datblygiad eu medrau Cymraeg heblaw yn eu gwersi Cymraeg.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn effeithiol. Mae'n rhan o'r rhaglen Eco-Ysgolion, ac mae gan ddisgyblion rôl flaenllaw ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd mewn gweithgareddau fel ailgylchu ac mewn monitro ac arbed ynni. Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o fywyd mewn gwledydd eraill eu hyrwyddo'n llwyddiannus trwy brosiectau fel unedau gwaith ar Lesotho a chysylltiadau ag UDA.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o glybiau diddorol amser cinio ac ar ôl yr ysgol.

Addysgu: Digonol

At ei gilydd, mae ansawdd ac ystod y dulliau addysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd ansawdd yr addysgu a arsylwyd yn dda mewn llawer o wersi ac yn ddigonol neu'n anfoddfaol mewn rhai. Lle mae'r addysgu'n dda, mae gan athrawon a staff cymorth ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm. Mae gweithgareddau yn heriol ac yn cael eu cynllunio i ymateb i ddiddordebau a dysgu blaenorol disgyblion. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei ddysgu ac fe ganiateir iddynt ddod o hyd i atebion drostynt eu hunain. Mae cynllunio gwersi a'r defnydd da o staff cymorth ac adnoddau eraill yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion.

Yn yr ychydig wersi lle'r oedd yr addysgu yn llai effeithiol, nid yw tasgau'n cael eu gweddu'n dda i'r oedran a'r ystod gallu. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatrys problemau neu fod yn gyfrifol am agweddau ar eu dysgu eu hunain. Mae gwendidau yn y ffordd y mae athrawon yn defnyddio cwestiynau i hyrwyddo trafodaeth a dadl, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn colli diddordeb yn eu dysgu.

Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd da o wybodaeth asesu i gynllunio'r cam nesaf yn natblygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion a dweud wrthynt beth mae angen iddynt ei wneud i lwyddo. Ni ddefnyddir y strategaethau hyn yn gyson ym mhob dosbarth, ac mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn ansicr ynglŷn â'u targedau a sut i'w cyflawni. Er bod yr ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion, nid yw pob un o'r athrawon yn gwneud defnydd digon da o'r wybodaeth i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu a rhoi gwybod i ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, ynghylch sut i wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn nodi ac yn cefnogi grwpiau o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn darllen, ysgrifennu a rhifedd yn briodol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi iechyd a lles disgyblion yn ogystal ag annog eu rhan yn yr ysgol neu'r gymuned ehangach. Caiff datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei hyrwyddo'n dda.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Rhoddir cymorth priodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar ac mae'r ysgol yn rhoi rhaglen ar waith i gynorthwyo disgyblion sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr 'cofnod o bryder'. Mae cynlluniau addysg unigol priodol wedi cael eu rhoi ar waith ac fe gânt eu hadolygu'n

rheolaidd. Caiff rhieni eu cynnwys yng nghyfarfodydd adolygu eu plentyn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol fel ymarferwyr iechyd galwedigaethol a seicolegwyr addysgol.

Gwneir defnydd da o ystod o ddarparwyr ac asiantaethau cymorth allanol i sicrhau bod anghenion corfforol, emosiynol ac ysbrydol disgyblion yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, ychydig iawn o effaith a gafodd strategaethau i wella presenoldeb.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd croesawgar a diogel lle mae disgyblion yn parchu ei gilydd. Caiff disgyblion eu trin yn gyfartal, mae ganddynt berthynas dda gyda'u hathrawon a rhoddir cyfleoedd da iddynt ddatblygu parch at bobl o wahanol ddiwylliannau a chredoau.

Mae'r adeilad yn ymarferol ac eang, a chaiff ei ddefnyddio'n dda ar y cyfan. Mae'r manau tu allan yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau i ddisgyblion o bob oedran. Mae gan yr ysgol ddigonedd o adnoddau dysgu o ansawdd da.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth a gwerthoedd priodol ar gyfer yr ysgol, sy'n cael eu cefnogi a'u hyrwyddo gan lywodraethwyr a staff. Gwnaed cynnydd da mewn rhai meysydd strategol fel gwella ansawdd profiadau dysgu disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Gwnaed cynnydd boddhaol mewn hunanarfarnu ac wrth flaenoriaethu meysydd i'w gwella yn y cynllun datblygu ysgol. Mae uwch reolwyr eraill yn cyfrannu'n briodol at gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae rôl cydlynwyr y cwricwlwm mewn monitro'r ddarpariaeth yn eu maes cyfrifoldeb yn nodwedd sy'n datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r camau hyn wedi arwain at ddeilliannau sylweddol well ar gyfer disgyblion eto.

Mae llywodraethwyr yn ymweld ag ystafelloedd dosbarth i gael blas ar brofiadau dysgu disgyblion ac maent yn cynorthwyo'r ysgol yn dda yn y ffordd y caiff ei rhedeg o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wedi'i datblygu digon mewn dehongli data i farnu pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg ac yn genedlaethol, ac i herio perfformiad.

Mae mentrau'r ysgol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn barhaus. Mae'r ysgol wedi ennill y marc ansawdd Eco i gydnabod ei gwaith yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion amgylcheddol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i hyrwyddo lles disgyblion ac mae'r ysgol yn gweithio tuag at ennill y wobwr ysgolion iach.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae dogfen hunanarfarnu'r ysgol wedi nodi a blaenoriaethu meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys ffocws clir ar wella safonau disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu at hunanarfarniad yr ysgol trwy ymweld ag ystafelloedd dosbarth i weld

yr addysgu a'r dysgu. Mae monitro ansawdd y ddarpariaeth mewn ystafelloedd dosbarth gan gydlynwyr y cwricwlwm yn dechrau llywio a gwella'r broses hunanarfarnu. Fodd bynnag, ni roddir digon o sylw yn y monitro i arfarnu datblygiad medrau disgyblion a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu eu medrau ymholi, ymchwiliol a datrys problemau. Fe wnaeth rhieni, disgyblion a phobl eraill gyfrannu eu safbwyntiau at hunanarfarniad yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi ystyriaeth dda i'r cyngor a gafwyd gan wasanaeth addysg yr awdurdod lleol. Mae cysylltiadau clir rhwng deilliannau'r hunanarfarniad a'r cynllun datblygu ysgol.

Mae athrawon wedi dechrau cydweithio ag ysgolion lleol eraill yn ddiweddar i rannu arbenigedd ac arfer dda, yn enwedig er mwyn gwella profiadau dysgu disgyblion. Mae hyn yn dechrau gwella medrau llythrennedd disgyblion.

Aethpwyd i'r afael â bron pob un o'r argymhellion o'r adroddiad blaenorol yn 2006, ar wahân i'r argymhelliad i wella presenoldeb disgyblion.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae rhieni ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion yn yr ysgol, yn yr ardal a thu hwnt.

Mae partneriaethau da yn bodoli gyda gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol i gefnogi gwaith yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn y broses hunanarfarnu a chynllunio datblygiad. Mae partneriaethau gyda busnesau lleol, yn cynnwys Partneriaeth Addysg a Busnes yr awdurdod lleol, yn effeithiol. O ganlyniad, gwnaed cynnydd da ers yr arolygiad blaenorol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o fyf gwaith.

Mae trefniadau trosglwyddo y cytunwyd arnynt gan y clwstwr o ysgolion a'r ysgol uwchradd yn galluogi disgyblion hŷn i baratoi'n briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau effeithiol i ddarpar ddisgyblion a rhieni ymweld ag un o'r pedair ysgol wahanol y gall disgyblion ddewis trosglwyddo iddynt yn 11 mlwydd oed. Mae'r trefniadau i helpu cefnogi'r ysgol i gymedroli a safoni cyrhaeddiad disgyblion yn gywir a chyson yn saith ac 11 mlwydd oed yn nhasgau'r asesiadau athrawon yn llai effeithiol.

Rheoli adnoddau: Digonol

Gwneir defnydd priodol o amser a phrofiad athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm ac mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniadau effeithiol mewn dosbarthiadau. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio arbenigedd y staff yn y ffrwd Gymraeg i wella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg ail iaith.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn nodi anghenion datblygu staff ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol.

Caiff adnoddau ariannol eu dyrannu'n briodol i weddu i'r blaenoriaethau y mae'r ysgol wedi'u nodi. Caiff cyllideb yr ysgol a lefelau staffio eu hadolygu'n rheolaidd. Yn ddiweddar, arweiniodd hyn at rai arbedion effeithlonrwydd mewn lefelau staffio i ddod â'r gyllideb dan reolaeth.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae perfformiad disgyblion yn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 wedi amrywio'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion yng Nghymru sydd â chanran debyg o brydau ysgol am ddim, mae perfformiad disgyblion yn saith ac 11 mlwydd oed wedi golygu bod yr ysgol rhwng y 25% gorau a'r 25% isaf mewn perthynas â phynciau craidd Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. At ei gilydd, mae perfformiad disgyblion dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn rhy anghyson ac nid yw'n ddigon da o'i gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg yng Nghymru.

Yn 2011, roedd cyrhaeddiad disgyblion yn saith mlwydd oed uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ac fe wnaethant berfformio'n dda o'i gymharu â disgyblion yn y teulu o ysgolion mewn Saesneg a mathemateg. Roedd perfformiad islaw'r cyfartaledd cenedlaethol mewn Cymraeg a gwyddoniaeth a hwn yw'r isaf yn y teulu. Roedd yr ysgol ymhlith y 50% ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd. Gwnaeth merched yn well na bechgyn am fod gan bron bob un o'r bechgyn anghenion dysgu ychwanegol. Heblaw am Saesneg, ychydig iawn o ddisgyblion a gyflawnodd uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 1.

Yn 2011, roedd perfformiad disgyblion yn 11 mlwydd oed yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru ac ar gyfer y teulu o ysgolion. Mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd, roedd perfformiad disgyblion islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, ond yn agos at berfformiad ysgolion eraill yn y teulu ar y cyfan.

Ychydig iawn o ddisgyblion a gyflawnodd uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 heblaw mewn gwyddoniaeth a Chymraeg lle'r oedd disgyblion yn gwneud yn dda o'u cymharu â disgyblion eraill mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Gwnaeth bechgyn yn well na merched yn bennaf am fod gan fwyafrif y merched anghenion dysgu ychwanegol.

Nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cystal yn yr asesiadau athrawon â disgyblion eraill. Yn 2010, roedd perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim 45 pwynt canran yn is na pherfformiad y disgyblion eraill. Yn 2011, lleihaodd y bwloch i 20 pwynt canran.

O gymharu ag ysgolion yng Nghymru y mae gan gyfrannau tebyg o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, fe wnaeth canlyniadau'r ysgol yn 2011 yng nghyfnod allweddol 1 olygu ei bod yn y 50% uchaf o ysgolion ar gyfer Saesneg a mathemateg a'r 25% isaf ar gyfer Cymraeg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, fe wnaeth canlyniadau'r ysgol olygu ei bod yn y 50% uchaf ar gyfer Cymraeg, y 50% isaf ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth, a'r 25% gwaelod ar gyfer mathemateg. Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn rhy anghyson, ac at ei gilydd, nid yw'n ddigon da o'i gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg yng Nghymru.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiaduron i rieni

Llenwodd un deg pump o rieni neu ofalwyr yr holiadur. At ei gilydd, fe wnaethant fynegi lefel uchel o foddhad gyda'r ysgol. Mae'r mwyafrif yn cytuno bod eu plant yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo y cawsant gymorth i ymgynffwrddo'n dda pan wnaethant ymuno i ddechrau. Mae'r rhan fwyaf o rieni a ymatebodd yn datgan bod eu plant yn gwneud cynnydd da a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn fodlon ag ymddygiad plant yn yr ysgol. Mae pob un o'r rhieni'n credu bod ansawdd yr addysgu'n dda, ac mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod disgwyliadau'r athrawon o'u plant yn dda. Mae un o bob pump o'r rhieni a ymatebodd i'r holiadur yn credu nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n ddigon da ar y gwaith y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Dywedodd chwarter o'r ymatebwyr nad yw eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag anghenion unigol canfyddadwy. Fe wnaeth bron pob un ohonynt fynegi boddhad â'r wybodaeth y maent yn ei chael am gynnydd eu plentyn.

Mae bron pob un o'r rhieni'n credu bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol, a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae pob un ohonynt yn gyfforddus i fynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau. Mae bron pob un ohonynt yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae llawer o'r rhieni a ymatebodd yn teimlo bod ystod y gweithgareddau, yn cynnwys teithiau neu ymweliadau, yn dda, ond anghytunodd rhai ohonynt. Mae un o bob pump o'r rhieni yn credu nad yw eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Ymateb i'r holiaduron i ddysgwyr

Llenwodd wyth deg naw o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr holiadur. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn gadarnhaol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad pan fyddant yn poeni neu'n gofidio. Dywedodd pob un ohonynt fod yr ysgol yn delio ag unrhyw fwlio yn effeithiol. Maent i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu helpu i gadw'n iach ac maent yn cael llawer o gyfleoedd i fod yn egniol yn gorfforol. Mae pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod ganddynt ddigon o offer, llyfrau a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith a bod athrawon a staff cymorth yn eu helpu i wneud cynnydd. Mae bron pob un ohonynt yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os byddant yn gweld eu gwaith yn anodd. Dywed bron pob un o'r disgyblion bod ymddygiad disgyblion eraill yn dda yn y dosbarth, ac yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Jeff Jones	Arolygydd Cofnodol
Buddug Bates	Arolygydd Tîm
Ruth Rhydderch	Arolygydd Lleyg
Garem Jackson	Arolygydd Cymheiriaid
Arwel Wood (Pennaeth)	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.